# JARVICE (JERVIS), WILLIAM (bu farw 1743), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** William Jarvice
**Dyddiad marw:** 1743
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Prin yw'r cofnodion amdano. Ar y cychwyn yr oedd 'eglwysi cynulledig' neu gynulleidfaoedd eglwysig Maldwyn, a adnabyddid fel Eglwys Maldwyn, yn cynnwys Annibynwyr, Bedyddwyr, a Chrynwyr, o dan ofal un gweinidog, a chynorthwyid ef gan nifer o rai eraill. Tebyg mai un o'r cynorthwywyr hyn oedd William Jarvice ar y dechrau; cawn ei enw gyntaf (yn 1703 neu 1713) yngl n â chynulleidfa Llanbrynmair, a addolai ar y pryd yn y 'conventicle' yn Nh   Mawr, fel cyd-weinidog â Reynallt Wilson; wedi ei farw ef rhwng 1715 a 1720 daeth i'w ran ofalu am holl gynulliadau y sir. Rywbryd tua 1733 symudodd i Lanfyllin a chyfyngodd ei hun i'r cynulliad yno. Tybir gan rai iddo ymadael â Llanbrynmair oherwydd ei ddaliadau ar fedydd. Bu farw yn Llanfyllin yn 1743 ac yno y claddwyd ef.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 237, 260, 274

*Llawlyfr Undeb Machynlleth* (1928), 1928, 33

*Hen Gapel Llanbrynmair, 1739–1939* (1939), 1939, 34


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738088


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu